



# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Hafod Mawddach**

**Cartref Preswyl Hafod Mawddach  
Marine Road  
Abermo  
LL42 1NW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

31/10/2023

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.**

*Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:*

*[psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Hafod Mawddach

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd
Lleuedd cofrestredig	25
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	19 Ionawr 2023
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth.

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus yn byw yn y gwasanaeth, mae ganddynt gydberthnasau da â'r gweithwyr gofal a gallant wneud dewisiadau mewn perthynas â phenderfyniadau o ddydd i ddydd. Mae'r cynlluniau personol yn cofnodi anghenion gofal unigol pob person a sut y dylid darparu'r cymorth hwn. Mae'r gweithwyr gofal yn darparu'r gofal cywir i ddiwallu anghenion y bobl a'u cefnogi i gyflawni eu canlyniadau unigol. Darperir hyfforddiant perthnasol er mwyn sicrhau bod y gweithwyr gofal yn deall anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a sut i'w ddarparu'n ddiogel. Mae'r lefelau staffio yn dda ac mae'r gweithwyr gofal yn treulio amser gyda'r bobl yn gwneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, ond nid ydynt yn cael sesiynau goruchwyllo un i un fel rhan o'u rolau.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn gynnes ac mae ystafelloedd y bobl eu hunain yn gyfforddus ac yn gartrefol. Ond mae angen rhoi sylw ar unwaith i'r trefniadau iechyd a diogelwch yn y gwasanaeth ac mae angen eu gwella. Ni chaiff y risgiau i iechyd a llesiant y bobl eu nodi'n rhagweithiol ac ni chânt eu rheoli'n effeithiol. Nid yw'r arferion rheoli heintiau sydd ar waith yn amddiffyn iechyd nag urddas y bobl ac mae hyn yn fater parhaus. Mae risgiau yn yr amgylchedd i bobl sy'n byw gyda dementia sydd heb eu rheoli'n effeithiol, ac mae angen rhoi sylw ar unwaith iddynt.

## Llesiant

Caiff y Gymraeg a diwylliant Cymru eu parchu fel rhan bwysig o hunaniaeth y bobl. Defnyddir arwyddion dwyieithog ym mhob rhan o'r adeilad ac mae dogfennau allweddol ar gael yn Gymraeg, heb fod angen i'r bobl ofyn amdanynt. Cofnodir dewis iaith y bobl yn eu cynlluniau personol, er mwyn i'r gweithwyr gofal wybod pa iaith y mae pob person fwyaf cyfforddus yn ei siarad. Mae'r gweithwyr gofal a'r tîm rheoli yn ddwyieithog, sy'n golygu y gall y bobl gael eu gofal a'u cymorth yn eu dewis iaith.

Mae gan y bobl reolaeth dros eu penderfyniadau o ddydd i ddydd ac ymgynghorir â nhw am ddatblygiad y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn rhoi dewisiadau i'r bobl o ran y ffordd y maent am gael eu cefnogi a sut maent am dreulio eu diwrnod. Nid oes amseroedd penodol i'r bobl godi yn y bore na mynd i'r gwely gyda'r nos, mae'r gweithwyr gofal yn parchu dewisiadau'r bobl. Mae dewisiadau ar gael adeg prydau bwyd, a gall y bobl benderfynu ble yr hoffent fwyta. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn holi eu barn mewn perthynas â gwella'r gwasanaeth.

Mae'r bobl yn cael y gofal cywir ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Mae'r cynlluniau personol wedi gwella ers yr arolygiad blaenorol, ac maent bellach yn cofnodi anghenion unigol pob person. Mae'r gweithwyr gofal yn cadarnhau bod ganddynt amser i ddarllen cynlluniau'r bobl ac maent yn gyfarwydd â sut y dylent ddarparu gofal pob person. Mae'r lefelau staffio yn adlewyrchu niferoedd ac anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn yn golygu bod y bobl yn cael eu cefnogi pan fydd angen cymorth arnynt. Dywedodd y bobl wrthym fod y gweithwyr gofal yn barchus a "*nothing is too much trouble*". Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant priodol ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Nid yw'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwyllo un i un ffurfiol yn rheolaidd, ac mae angen gwella hyn.

Mae amgylchedd y cartref yn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn y bobl ond nid yw'n diogelu iechyd a diogelwch y bobl yn llawn. Mae'r cartref wedi'i rannu'n unedau cyfforddus llai o faint, ac mae ystafelloedd y bobl eu hunain wedi'u personoli â'u heitemau eu hunain. Mae'r risgiau rheoli heintiau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol yn parhau i fod yn risg yn yr arolygiad hwn ac mae angen rhoi sylw i hyn. Mae sawl risg sylweddol arall i ddiogelwch y bobl yn yr adeilad. Mae angen gweithredu ar frys i sicrhau bod y cartref yn cynnig amgylchedd diogel i'r bobl fyw ynddo.



## Gofal a Chymorth

Yn yr arolygiad blaenorol, nodwyd gennym nad oedd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli heintiau yn effeithiol. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod rhai camau wedi'u cymryd i wella'r arferion rheoli heintiau. Ond mae angen gwneud gwelliannau pellach o hyd. Mae hyn oherwydd ein bod wedi gweld nad yw gwastraff clinigol bob amser yn cael ei storio'n briodol y tu allan i'r cartref. Pan wnaethom gyrraedd y gwasanaeth, gwelsom fod dau fag gwastraff clinigol wedi cael eu gosod y tu allan i brif fynedfa'r adeilad, wrth ymyl ardaloedd eistedd awyr agored. Mae hyn yn enghraifft wael o arfer rheoli heintiau ac nid yw'n diogelu urddas y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Yn yr arolygiad blaenorol nodwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau i gynlluniau personol y bobl er mwyn sicrhau eu bod bob amser yn cofnodi anghenion y bobl a sut y dylid eu diwallu. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau digonol wedi'u cymryd i wella cynlluniau personol y bobl. Mae'r dogfennau gofal yn cofnodi'n fanwl yr hyn sy'n bwysig i'r bobl ac yn cynnwys gwybodaeth am hanes bywyd pob person. Mae hyn yn helpu'r gweithwyr gofal i ddod i adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd a chaiff newidiadau i anghenion y bobl eu cofnodi. Caiff galluoedd y bobl hefyd eu cofnodi a gwneir ymdrechion i gynnal eu hannibyniaeth. Dywedodd un person wrthym fod y cymorth a ddarperir wedi ei alluogi i adennill ei annibyniaeth a bod hyn wedi gwella ansawdd ei fywyd.

Mae'r bobl yn cael y cymorth cywir yn gyson er mwyn diwallu eu hanghenion gofal unigol ac i gyflawni eu canlyniadau delfrydol. Mae'r cofnodion gofal yn dangos bod y gofal a ddarperir yn unol â'r cynlluniau personol sydd ar waith, ac y caiff dewisiadau'r bobl eu hystyried. Mae asesiadau risg yn cael eu defnyddio i gofnodi'r risgiau a nodwyd i iechyd a llesiant y bobl, a sut y caiff y risgiau eu rheoli. Cysylltir â chomisiynwyr a gweithwyr gofal proffesiynol am gyngor ac arweiniad pan fydd anghenion y bobl yn newid. Mae'r unigolion yn cael eu cefnogi i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Mae hobiau a diddordebau'r bobl yn hysbys, caiff gweithgareddau eu cynnal yn rheolaidd a gwneir ymdrech i alluogi'r bobl i barhau i fod yn rhan o'u cymuned.

Mae systemau da ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae polisi diogelu cyfredol ar gael ac mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant perthnasol. Maent yn deall eu cyfrifoldeb i roi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am les y bobl. Mae'r rheolwr yn rhoi gwybod yn briodol i'r awdurdod lleol am faterion diogelu ac yn cofnodi'r canlyniadau. Mae'r awdurdodiadau cywir ar waith i'r bobl y mae angen cyfyngu eu rhyddid, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.



## Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo ymdeimlad y bobl o berthyn. Mae'r cartref yn lân ac yn gartrefol, gyda dewis o lofeydd lle gall y bobl dreulio eu hamser yng nghwmni eraill, os byddant am wneud hynny. Mae hefyd dewis o ystafelloedd bwyta i'r bobl y mae'n well ganddynt fwyta eu prydau yng nghwmni eraill. Mae ystafelloedd y bobl eu hunain wedi'u personoli ag eitemau sydd o bwys iddynt, fel lluniau, darluniau a llenni a deunyddiau. Mae'r ardal awyr agored yn hygyrch ac yn cynnwys ardaloedd eistedd. Ar y cyfan, mae'r trefniadau ar gyfer cynnal a chadw'r safle yn dda. Gwelsom fod rhai ardaloedd cymunedol wedi cael eu paentio'n ddiweddar a dywedodd y rheolwr wrthym fod cynlluniau ar waith i ailaddurno ardaloedd eraill.

Nid yw'r risgiau iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd wedi cael eu rheoli'n ddigonol ac mae hyn yn peri risg o niwed i'r bobl. Yn ystod ein taith o gwmpas y cartref, gwelsom fod drws tân yn cael ei ddal ar agor gan ddiffoddwr tân. Pe byddai tân, byddai hyn yn atal y drws tân rhag cyflawni ei ddiben. Dangosodd y cofnodion tân mai yn 2017 y cynhaliwyd yr ymarfer diwethaf o wagio'r adeilad oherwydd tân. Dywedodd y rheolwr wrthym na allai gofio a oedd ymarfer arall wedi'i gynnal ers yr un a gofnodwyd diwethaf, ond roedd yn bwriadu trefnu i gynnal un yn fuan. Mae ymarferion tân yn agwedd bwysig ar reoli diogelwch tân yn y gwasanaeth, a dylid eu cynnal o leiaf unwaith y flwyddyn. Gwelsom nad oedd yr arwyddion dynodedig ar gyfer presenoldeb ocsigen yn y cartref ar waith ar gyfer pob lleoliad lle roedd ocsigen yn bresennol. Mae hyn yn ofynnol fel rhan o'r mesurau diogelwch tân sydd ar waith yn y gwasanaeth. Gwelsom nad oedd drws yr ystafell golchi dillad wedi ei gloi, fel sy'n ofynnol. Mae hyn yn golygu y gallai pobl sy'n byw gyda dementia gael gafael ar y cemegion sydd wedi'u storio yn yr ystafell hon. Gwelsom nad oedd menig finyl wedi'u storio'n ddiogel, ac mae'r rhain hefyd yn peri risg i'r bobl sy'n byw gyda dementia. Yn un o'r lofeydd cymunedol, gwelsom fod set deledu wedi'i gosod ar fantell tân, ac nad oedd wedi'i hatodi'n sownd i'r wal, a olygai y gallai ddisgyn. Yn yr un llofa, gwelsom fod gwresogydd symudol yn cael ei ddefnyddio, ond nid oedd unrhyw asesiadau risg ar waith i ystyried y perygl cysylltiedig i ddiogelwch y bobl. Gwelsom gofnodion, dyddiedig 2019, yn ymwneud â chyflwr y system drydanol yn yr adeilad. Roedd y cofnodion hyn yn nodi bod angen gweithredu er mwyn sicrhau bod y system yn ddiogel. Nid oedd y gwaith hwn wedi'i gwblhau ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae hyn yn cael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg o niwed i'r bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r materion hyn.



## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel, a chânt eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau cyn i weithwyr gofal newydd ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Fel rhan o'u cyfnod sefydlu, mae staff gofal newydd yn gweithio shifftiau cysgodi gyda gweithwyr gofal mwy profiadol er mwyn deall sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu. Mae'r rotas yn dangos bod niferoedd priodol o weithwyr gofal yn cael eu defnyddio, gan ystyried anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae staff cegin a staff cadw tŷ yn gweithio yn y gwasanaeth hefyd, sy'n galluogi'r gweithwyr gofal i ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl. Darperir hyfforddiant priodol, a dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cael eu hannog i gwblhau cymwysterau gofal cymdeithasol. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cael cymorth da gan y tîm rheoli, a'u bod yn teimlo y gwrandewir arnynt. Fodd bynnag, mae'r cofnodion a welsom yn dangos nad yw'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio un i un gan uwch-aelodau o staff, fel sy'n ofynnol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Yn yr arolygiad blaenorol, nodwyd gennym fod angen gwella ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol, sy'n rhan o'r gwaith a wneir ganddo i fonitro'r gwasanaeth. Ers yr arolygiad diwethaf, mae person arall wedi cael ei benodi fel Unigolyn Cyfrifol y gwasanaeth. Mae'r cofnodion yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth a'i fod yn siarad â'r bobl a'r gweithwyr gofal er mwyn clywed eu barn am y gwasanaeth a ddarperir. Mae adolygiadau ffurfiol o ansawdd y gofal yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn a chaiff y canfyddiadau eu cofnodi mewn adroddiad ffurfiol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gyflawni nodau'r datganiad o ddiben. Mae'r rheolwr yn cynnal archwiliadau rheolaidd er mwyn monitro'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus i sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â'r datganiad o ddiben.

Mae trefniadau ar waith i helpu'r bobl i reoli eu harian. Mae polisi ar waith er mwyn darparu canllawiau strwythuredig yn nodi sut y gellir helpu'r bobl i gadw eu harian yn ddiogel ac i gael gafael arno. Dywedodd y rheolwr wrthym fod trefniadau cadarn ar waith i ddiogelu arian personol y bobl sy'n cael ei gadw yn y cartref. Mae hyn yn golygu mai dim ond y rheolwyr ac uwch-aelodau o'r staff all gael gafael ar arian y bobl, a dim ond pan fydd tyst o blith yr unigolion hynny yn bresennol hefyd. Cedwir cofnodion o drafodion ariannol pan fyddant yn digwydd.

### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
57	Nid yw'r risgiau lechyd a Diogelwch yn cael eu nodi a'u rheoli'n ddigonol, sy'n peri risg o niwed i'r bobl. Sicrhau y caiff yr holl risgiau iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd eu nodi a'u rheoli'n briodol.	Newydd
15	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi llunio cynllun personol sy'n nodi'n glir sut y caiff anghenion y bobl o ddydd i ddydd eu diwallu a'r camau a fydd yn cael eu cymryd i liniaru unrhyw risgiau a nodwyd i ddiogelwch y bobl. Nid oedd ymyriadau ar waith i liniaru unrhyw risgiau a nodwyd i'r bobl ar ôl iddynt gwmpo. Nid yw wedi sicrhau bod pob digwyddiad lle bydd unigolyn yn cwmpo yn cael ei gofnodi mewn archwiliad er mwyn nodi unrhyw batrymau posibl i leihau unrhyw achosion pellach o gwmpo yn y dyfodol. Caiff	Cyflawnwyd

	gwybodaeth groes a chyfyngedig ei chofnodi yng nghynlluniau personol y bobl. Nid yw wedi sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyfredol yn cael ei dogfennu'n glir yng nghynlluniau personol y bobl.	
--	--	--

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

<b>Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella</b>		
<b>Rheoliad</b>	<b>Crynodeb</b>	<b>Statws</b>
36	Nid oedd pob gweithiwr gofal wedi cael sesiwn goruchwylio bob tri mis, fel sy'n ofynnol. Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael sesiwn goruchwylio bob tri mis.	Newydd
56	Nid oes gan ddarparwr y gwasanaeth ddarpariaeth ddigonol ar waith er mwyn rheoli heintiau a lleihau lledaeniad heintiau. Roedd risgiau hylendid a rheoli heintiau yn amlwg yn ystod yr arolygiad.	Heb Gyflawni
73	Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â'r cartref bob tri mis o leiaf. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol bob tri mis o leiaf, a chyfarfod â'r unigolion a'r staff fel rhan o'r ymweliad.	Cyflawnwyd

## **A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 11/12/2023**